# Telesat LEO Inc: Penderfyniad ar gais am drwydded rhwydwaith gorsaf ddaear nad yw'n ddaearsefydlog

Penderfyniad

**DATGANIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 10 Tachwedd 2022

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniad ar gais gan Telesat ar gyfer trwydded rhwydwaith gorsaf ddaear telegraffiaeth ddi-wifr y DU.**

Bydd y drwydded yn caniatáu i derfynellau defnyddwyr Telesat yn y DU - megis dysgl loeren cwsmer-gysylltu â'i gytser Lightspeed o loerennau orbit nad yw'n ddaearsefydlog (NGSO).

## Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

**Rydym wedi penderfynu rhoi trwydded rhwydwaith gorsaf ddaear NGSO i Telesat**

Fe wnaethom amlinellu ein hasesiad gwreiddiol o gais Telesat mewn ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, pan ddwedom ein bod yn tueddu tuag at roi'r drwydded. Rydym bellach wedi asesu ymatebion rhanddeiliaid ynghylch gallu Telesat i gydfodoli â deiliaid trwydded NGSO presennol ac yn y dyfodol ac wedi ystyried y materion cystadleuaeth a godwyd gan randdeiliaid yn eu cyflwyniadau.

Cododd rhanddeiliaid bryderon ehangach hefyd ynghylch diogelu rhwydweithiau GSO ac effaith systemau NGSO ar amgylchedd y gofod, yr ydym hefyd yn ymdrin â nhw yn y ddogfen hon.

Yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad fe wnaethom ofyn i Telesat roi tystiolaeth ychwanegol i ni o ran ei ymagwedd at gydlynu trefniadau ffeilio o ran lloerenni gyda'r ITU a'i allu i gydfodoli â rhwydweithiau orbit Daearsefydlog (GSO). Mae ein penderfyniad yn cymryd ei ymateb i ystyriaeth, yr ydym wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r penderfyniad hwn.

O ran cydfodoli, credwn y gall system Lightspeed Telesat gydfodoli â deiliaid trwydded telegraffiaeth ddi-wifr NGSO presennol a systemau NGSO yn y dyfodol**.** O dan delerau ei drwydded newydd, bydd rhwymedigaeth ar Telesat i gydweithredu'n ddidwyll â phob trwyddedai NGSO arall.

O ran cystadleuaeth, rydym yn asesu nad yw caniatáu'r cais yn debygol o atal neu gyfyngu ar allu systemau NGSO i gyrchu'r farchnad yn y dyfodol a bod y risgiau cystadleuaeth felly'n debygol o fod yn isel.

**Bydd y penderfyniad hwn yn galluogi Telesat i ddarparu gwasanaethau cysylltedd lloeren â phobl a busnesau yn y DU. Byddwn yn awr yn bwrw ymlaen i roi trwydded newydd i Telesat, yn amodol ar dalu ffi'r drwydded. Bydd copi o'r drwydded ar gael yn yr adran "Trwyddedau presennol" ar ein gwefan hefyd.**

1.1 Mae systemau lloeren NGSO yn ffordd newydd o ddarparu gwasanaethau band eang o'r gofod gan ddefnyddio cytser o loerenni mewn orbit daear isel neu ganolig. Mae gan y gwasanaethau lloerenni hyn y potensial i ddarparu gwasanaethau cyflymder uwch ac oedi is na systemau orbit Daearsefydlog (GSO) traddodiadol.

1.2 Ym mis Rhagfyr 2021 bu i ni nodi ein proses trwyddedu NGSO newydd, a ddyluniwyd i annog mwy o gydweithrediad rhwng deiliaid trwydded NGSO, gwella ein gallu i ymyrryd os ceir ymyriant niweidiol a sicrhau gwell tryloywder drwy gynnal ymgynghoriadau byrion.

1.3 Cyflwynodd Telesat gais am Drwydded Rhwydwaith Gorsaf Ddaear (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "trwydded NGSO ESN") yn gynharach eleni. Yn y cais fe nododd sut y byddai'r

drwydded yn ei alluogi i ddarparu gwasanaethau band eang lloeren i gefnogi ôl-drosglwyddo data menter a symudol, llwyfannau morwrol ac alltraeth, gwasanaethau awyrennol a llywodraeth yn y DU. Mae Telesat yn bwriadu lansio lloerennau yn 2025 ac i ddechrau gwasanaethau cychwynnol yn y DU yn chwarter cyntaf 2026.

1.4 Ar 24 Mehefin 2022, bu i ni gyhoeddi ymgynghoriad (yr "**ymgynghoriad Telesat** [1]"), a fu'n nodi ein hasesiad cychwynnol o'r cais am drwydded.

1.5 Roeddem o'r farn bod y cais yn gweddu i'r gweithdrefnau a nodir yn ein datganiad ar systemau lloeren nad ydynt yn ddaearsefydlog. Bu i ni gymryd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad Telesat i ystyriaeth wrth ddod i'n penderfyniad i ganiatáu'r cais am drwydded.

[1] Gweler yr ymgynghoriad Telesat LEO Inc: application for non-geostationary earth station (network) licence.